# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU 'C'

# 21AIN GORFFENNAF 2015

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd T. Davies [Cadeirydd]**

**Y Cynghorwyr: J.K. Howell a H.I. Jones**

Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:- Y Cynghorydd J.M. Charles

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**
**Mr R. Edgecombe – Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol**

**Mr A. Rees – Swyddog Trwyddedu**

**Mrs M. Evans Thomas – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd**

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:-**

**Mr E. Jones – Pen-swyddog Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 9.30am – 10.15am;**

**Ymweliad Safle 10:15am – 10:45am;**

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 11:45am – 2:05pm**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE – ADEILAD CLWB RYGBI LLANYMDDYFRI, MEYSYDD CHWARAE BANC YR EGLWYS, LLANYMDDYFRI, SA20 0BA

Gadawodd yr Is-bwyllgor y Siambr ac ailymgynnull am 10:15am ar safle Clwb Rygbi Llanymddyfri, Meysydd Chwarae Banc yr Eglwys, Llanymddyfri er mwyn cael golwg ar leoliad y safle mewn perthynas ag eiddo'r gwrthwynebwyr. Cafodd aelodau'r Is-bwyllgor gyfle i archwilio’r tu mewn i’r adeilad ac yna bu iddynt gerdded ar hyd y llwybr o'r safle tuag at y dref a heibio i eiddo'r gwrthwynebwyr. Ar ôl i'r ymweliad â'r safle ddod i ben, ailymgynullodd yr Is-bwyllgor yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 11.45am i ystyried y cais.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Llandovery R.F.C. Ltd am drwydded safle ar gyfer y safle uchod fel a ganlyn: -

Caniatáu:-

Cyflenwi Alcohol / Adloniant Rheoledig / yr Oriau Agor:

Dydd Sul tan ddydd Iau 11:00 – 00:00
Dydd Gwener a dydd Sadwrn 11:00 - 01:00

Lluniaeth hwyrnos:-

Dydd Sul tan ddydd Iau 23:00 – 00:00
Dydd Gwener a dydd Sadwrn 23:00 - 01:00

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU 'C'

# 21AIN GORFFENNAF 2015

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

- Atodiad A - copi o'r cais a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd;
- Atodiad B - sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu;
- Atodiad C - sylwadau Heddlu Dyfed-Powys;
- Atodiad D - sylwadau gan bobl eraill.

Yn ogystal â'r sylwadau yn Atodiad D, rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod fod pobl eraill wedi cyflwyno sylwadau ond nad oedd y bobl hynny wedi rhoi caniatâd i'w sylwadau gael eu datgelu. Yr oeddynt yn pryderu, petai'r clwb rygbi'n cael y drwydded, y byddai cwsmeriaid y clwb yn peri helyntion.

Rhoddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor fod un o'r gwrthwynebwyr, Mr Ian Aveson, wedi tynnu ei wrthwynebiad yn ôl cyn y cyfarfod.

Nid oedd yr Awdurdodau Cyfrifol eraill wedi cyflwyno sylwadau ar y cais.

Cytunodd yr holl bartïon fod y dogfennau ychwanegol canlynol yn cael eu dosbarthu i'r Is-bwyllgor:-

- Polisi Alcohol ac Anhrefn Clwb Rygbi Llanymddyfri;
- e-bost oddi wrth Gadeirydd y Clwb yn esbonio y byddai'r oriau trwyddedu yn aros fel yr oeddynt;
- e-bost oddi wrth Gadeirydd y Clwb yn derbyn sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu;
- e-bost oddi wrth Gadeirydd y Clwb yn derbyn sylwadau'r Heddlu;
- cynllun yn dangos lleoliad y clwb a chartrefi'r gwrthwynebwyr.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau fel yr oeddynt yn Atodiad B i'r adroddiad, a dywedodd nad oedd yr Awdurdod yn gwrthwynebu mewn egwyddor ganiatáu trwydded, yn amodol ar gynnwys yr amodau oedd wedi eu cynnig gan yr Heddlu ac yn amodol hefyd ar bennu tri amod ychwanegol yr oedd ef am eu cynnwys ac yr oedd yr ymgeisydd wedi cytuno arnynt.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch ei sylwadau.

Cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan bartïon â buddiant a wrthwynebai rhoi trwydded safle am y rhesymau canlynol:-

- yr oedd tipyn o drafferthion yn arfer bod o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol pan oedd disgos yn cael eu cynnal yn y clwb bob nos Sadwrn; fodd bynnag yr oedd y sefyllfa wedi gwella ar ôl rhoi'r gorau i'w cynnal, a mynegwyd pryder y byddai unrhyw newidiadau i'r drwydded yn peri bod y problemau hynny'n ailddechrau;
- o ran y Polisi Alcohol ac Anhrefn, mynegwyd pryder ynghylch y byddai meddwon oedd yn cael eu taflu allan o'r clwb yn achosi problemau'r tu allan i'r trigolion cyfagos;

- y farn oedd taw'r arfer presennol o ran gorfod llofnodi presenoldeb yn y clwb oedd y dull gorau o atal troseddau ac anhrefn ac ati gan fod cofnod o'r sawl oedd yn bresennol;
- y farn oedd taw gwerthu alcohol oedd gwreiddyn y broblem ac nid y disgos eu hunain;
- y farn oedd nad oedd y clwb yn ddigon cyfrifol i feddu ar drwydded gwerthu alcohol;
- yr oedd yr heddlu wedi cael gwybod am nifer o ddigwyddiadau eleni, a'r farn oedd taw alcohol oedd achos y digwyddiadau hynny;
- nifer helaeth o bobl yn teithio ar hyd Banc yr Eglwys ac yn dod at ei gilydd yno;
- y farn oedd bod darparu tacsis i gludo pobl adref o'r clwb yn anymarferol gan fod llawer o dacsis Llanymddyfri yn teithio i Gaerfyrddin ar nos Sadwrn;
- ymysg y problemau yn y gorffennol oedd torri ffenestr a dwyn beic ar sawl achlysur;
- petai'r clwb yn cael trwydded, y gobaith oedd y byddai'r clwb yn gosod camerâu teledu cylch cyfyng ym Manc yr Eglwys;
- pe byddid yn trefnu bod tacsis ar gael, mynegwyd pryder y byddent yn defnyddio Banc yr Eglwys fel man codi cwsmeriaid.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth.

Wedyn bu i gynrychiolydd yr ymgeisydd ymateb fel a ganlyn i'r pryderon a'r materion a godwyd:

- y bwriad gwreiddiol wrth gyflwyno'r cais oedd cymhennu'r rheidrwydd bod pobl nad oeddynt yn aelodau yn llofnodi wrth ddod i mewn i'r clwb, gan fod y clwb yn cael ei ddefnyddio gan nifer o fudiadau cymunedol nad oeddynt yn aelodau;
- yr oedd y clwb yn awyddus i'r gymuned ddefnyddio rhagor ar y clwb, ac yr oedd yn ceisio cymell cysylltiadau cymunedol newydd;
- pwysleisiwyd bod croeso i'r trigolion lleol ymweld â'r clwb unrhyw bryd i drafod unrhyw bryderon;
- nid oedd y clwb yn bwriadu ailddechrau cynnal disgos gan eu bod yn ormod o drafferth;
- yr oedd y clwb am fod yn gymydog cyfrifol ac nid oedd am wneud dim fyddai'n tarfu ar bobl yn y cyffiniau;
- yr oedd y clwb yn cydymffurfio eisoes â'r rhan fwyaf o'r amodau arfaethedig.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth.

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU 'C'

# 21AIN GORFFENNAF 2015

Yna bu i'r Is-bwyllgor **BENDERFYNU'N UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y dystiolaeth oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais yn cael ei ganiatáu, a hynny'n unol â'r amodau trwydded yr oedd yr ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol wedi cytuno arnynt.**

**Y RHESYMAU:-**

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Yr oedd gan y safle Dystysgrif Safle Clwb ers 2005 ac yr oedd wedi ei drwyddedu gan Ynadon cyn hynny;
2. Yr oedd yr oriau gweithredu yn y Dystysgrif Safle Clwb yr un fath â'r rhai yr oeddid yn gofyn amdanynt yn y cais;
3. Bu problemau ar y safle yn 2007 a 2011 a roddodd fod i ymweliadau gorfodi gan yr heddlu a/neu'r Awdurdod Trwyddedu;
4. Yr oedd y problemau hyd at 2007 wedi cyd-ddigwydd yn bennaf â'r disgos oedd yn cael eu cynnal ar nos Sadwrn ac ar Wyliau Banc, ac yr oeddynt yn ymwneud yn bennaf â phobl yn symud o'r clwb i ganol Llanymddyfri.
5. Yr oedd y problemau hyn yn peri braw a gofid i'r trigolion lleol.
6. Trigolion Banc yr Eglwys yn anad neb oedd yn dioddef yn sgil y problemau hyn;
7. I raddau helaeth daeth y problemau hyn i ben pan roddodd y clwb y gorau yn 2007 i gynnal y digwyddiadau hyn;
8. Nid oedd yr Heddlu na'r Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd yn gwrthwynebu'r cais;
9. Yr oedd yr ymgeisydd wedi derbyn y mesurau rheoli yr oedd yr Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu wedi eu hargymell, ac felly yr oedd yr Heddlu wedi tynnu ei wrthwynebiadau'n ôl.

Yr oedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu, ac ar y ffaith nad oedd dim sylwadau gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd. Yn unol â pharagraff 9.12 yn y Canllawiau Statudol, nid oedd yr Is-bwyllgor yn barnu bod digon o dystiolaeth ger ei fron i gyfiawnhau peidio â derbyn barn yr Heddlu.

Yr oedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Ym marn yr Is-bwyllgor yr oedd tystiolaeth y trigolion lleol yn gredadwy ac yn rymus. Yr oedd yn fodlon, pan oedd y clwb yn cynnal disgos ar nos Sadwrn ac ar Wyliau

Banc, fod y gweithgareddau hynny'n tanseilio'r amcanion trwyddedu o ran atal troseddau ac anhrefn ac o ran atal niwsans cyhoeddus, gan eu bod yn peri niwsans sŵn, difrod troseddol a mathau eraill o anhrefn yng nghyffiniau Banc yr Eglwys, Llanymddyfri. Yr oedd tuedd i gael mwy o broblemau pan oedd y cyhoedd yn gyffredinol yn cael mynediad i'r clwb.

Nododd yr Is-bwyllgor fod gan y clwb hawl ers 2007 i gynnal digwyddiadau tebyg o dan Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro ond nad oedd wedi gwneud hynny.

Felly yr oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon y byddai caniatáu'r cais ar sail yr amodau yr oedd yr ymgeisydd wedi gofyn amdanynt yn wreiddiol, yn debygol o danseilio'r amcanion hynny am yr un rhesymau.

Bu'r Is-bwyllgor yn ystyried yn ofalus y mesurau rheoli yr oedd yr Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu wedi eu cyflwyno, ac yr oedd yr ymgeisydd wedi eu derbyn, ynghyd â'r sicrwydd yr oedd y clwb wedi ei roi na fyddent yn cynnal disgos ar nos Sadwrn nac ar Wyliau Banc. Yr oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y mesurau hyn yn ddigonol i roi sylw i'r materion uchod.

Felly yr oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon ei bod yn briodol rhoi'r drwydded, yn amodol ar yr amodau yr oeddid wedi cytuno arnynt, er mwyn hyrwyddo'r 4 amod trwyddedu a bod hyn yn ymateb cymesur i'r materion oedd wedi eu codi.

Er nad oedd yr Is-bwyllgor yn barnu ei bod yn angenrheidiol pennu amod arall, yr oedd yn annog y clwb i sicrhau bod trigolion Banc yr Eglwys yn cael enw cyswllt y byddent yn gallu rhoi cwynion iddo petai problemau ac a fyddai ar gael i gydlynu'n agos â'r trigolion yn rheolaidd.

Yr oedd yr Is-bwyllgor yn derbyn gair y clwb nad oedd yn bwriadu cynnal disgos cyhoeddus yn y dyfodol, a gwnaeth ei benderfyniad ar sail hynny. Yr oedd yr Is-bwyllgor am atgoffa'r clwb, petai problemau yn y dyfodol, fod grym gan yr Is-bwyllgor i adolygu'r drwydded ac i'w diddymu'n llwyr petai'n barnu bod hynny'n briodol.

**LLOFNODWYD: ……………………………………….**

**Y DYDDIAD: …………………………………………..**